## SEFYDLIAD Y MERCHED DOLWYDDELAN

**IONAWR** – Fe wnaethom ni agor y flwyddyn gyda'n cyflwyniad penderfyniad cenedlaethol, gaiff ei redeg gan Alison Richmond. Ein pleidlais oedd i gefnogi ymgyrch CPR 'Bystanders can be Lifesavers'
**CHWEFROR** - Cyflwyniad gafaelgar am waith hanfodol, sy'n achub bywydau, gwirfoddolwyr Coastwatch, gan Wendy Dossett. Gwnaed rhodd tuag at gynnal y gwasanaeth gwirfoddol lleol hwn. Aethom ni hefyd ar ymweliad i Lanberis lle bu inni gyfarfod â Sefydliad y Merched Brynrefail i ddysgu a chwarae Boccia (chwaraeon pêl sy'n gysylltiedig â bowlio) ... ac erbyn diwedd y noson ni oedd yr enillwyr!
**EBRILL** – Fe wnaethom ymweld â phencadlys sefydliad Achub Mynydd Dyffryn Ogwen a darganfod beth sy'n digwydd mewn galwad brys – o'r cyswllt cyntaf, i lanhau a thacluso'r holl offer ar ddiwedd yr alwad (hyd yn oed os ydy hi'n 2yb ar noson oer!) cyfraniad eithriadol i achub bywydau ar ein bryniau – anfonwyd rhodd i gefnogi'r gwasanaeth gwirfoddol hanfodol hwn.
**MAI** – Fe wnaethom groesawu siaradwr o wasanaeth cam-drin yn y cartref Aberconwy ac rydym wedi penderfynu darparu bocsys o bethau ymolchi fel anrhegion Nadolig eleni i'r dioddefwyr maen nhw'n eu cefnogi.
**MEHEFIN** - Rydym ni'n cynnal grwpiau Sefydliad y Merched lleol eraill i ymuno â ni, ar y trên, am daith gerdded ar noson braf o haf, te hufen a gwylio fideos o hanes Dolwyddelan, cyn dal y trên yn ôl i fyny'n llinell leol hyfryd.

**Rydym ni'n cyfarfod ar ddydd Gwener cyntaf y mis am 7.00yh.**

**Cysylltwch gyda Alison Richmond ar 07534 284188**
**os hoffech chi ymuno â ni.**

---

## CLWB DYDD LLUN DOLWYDDELAN

Caiff Clwb Dydd Llun y pentref ei gynnal yn y Pafiliwn am 2 o'r gloch ar y pedwerydd dydd Llun o bob mis.
Mae ein cyfarfodydd yn anffurfiol, lle gallwn ni fwynhau sgwrs ddifyr gan siaradwr gwadd neu wneud cwis – neu yn syml mwynhau cwmni ein gilydd, cael sgwrs dda a chwerthin dros baned o de a bisgedi.

Mae croeso i aelodau newydd! John.